2006

# Cytundeb a Chyfansoddiad Taith

Taith



CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

CONWY

CYNGOR Sir Ddinbych Denbighshire COUNTY COUNCIL

Sir y Fflint Flintshire

wrexham wrecsam

# DYDDIEDIG Mawrth 31, 2004

# CYTUNDEB A CHYFANSODDIAD TAITH

## (Diwygiwyd ar Gorffennaf 20, 2006)

**MAE'R CYTUNDEB HWN** yn cael ei wneud ar Mawrth 31 o 2004 **RHWNG**

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CONWY**
**CYNGOR SIR DDINBYCH**
**CYNGOR SIR Y FFLINT**
**CYNGOR GWYNEDD**
**CYNGOR SIR YNYS MÔN**
a **CHYNGOR BWRDEISTREF SIROL WRECSAM**

(a gyfeirir atynt ar y cyd fel "y partïon") ac mae'n cael ei wneud yn unol ag Adran 101(5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd hi.

## 1. DIFFINIADAU

**Ardal** yn golygu Ardal Llywodraeth Leol pob Awdurdod fel y'i diffinir hi yn Rhan 1 o Atodlen IV i'r Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y diwygiwyd hi) ac eithrio ardal Meirionnydd o Gyngor Gwynedd.

**Awdurdod** yn golygu unrhyw un o'r partïon unigol yn y Cytundeb hwn

**Awdurdod Rheoli** yn golygu'r Awdurdod a benodir o bryd i'w gilydd i weithredu swyddogaethau gweinyddol, ysgrifenyddol, ariannol a chyfrifeg Taith fel sydd wedi eu nodi yn y Cytundeb hwn.

**Bwrdd** yn golygu cyd Bwyllgor y partïon a sefydlwyd yn unol ag Adran 101(5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd hi ac yn cynnwys dau Gynghorydd etholedig o bob Awdurdod wedi eu penodi gan bob Awdurdod.

**Cynllun Busnes** yn golygu y Cynllun Busnes blynyddol a gymeradwyir gan y Bwrdd i weithredu'r swyddogaethau a sefydlwyd gan y Cytundeb hwn ar gyfer y cyfnod deuddeg mis sy'n dilyn.

| | |
|---|---|
| **Grŵp Rheoli** | yn golygu'r grŵp o Swyddogion o bob Awdurdod sydd wedi ei sefydlu gyda'r Cytundeb hwn. |
| **Lleol** | yn golygu unrhyw ardal o fewn yr Ardal sy'n llai na'r Ardal yn gyfan |
| **Rhanbarth** | yn golygu yr un peth ag Ardal |
| **Taith** | yn golygu'r enw a roddir i'r cyd bwyllgor, ei swyddogaethau a'r gwaith a wneir gan ei awdurdod fel sydd wedi eu sefydlu gyda'r Cytundeb hwn |

## 2. PWRPAS Y CYTUNDEB HWN

Mae'r partïon yn dymuno sefydlu'r Bwrdd fel cyd bwyllgor o dan y Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd hi a gyda hyn yn gwneud y Cytundeb hwn er mwyn:

2.1 cyflawni'r nodau yn y Rhanbarth fel y maent wedi eu rhestru yng nghymal 3.1 isod,

2.2 hyrwyddo Taith fel rhywbeth y gellir ei adnabod yn y Rhanbarth,

2.3 mabwysiadu cyfansoddiad Taith fel y mae wedi ei nodi yn Cytundeb hwn a dirprwyo i Taith y pwer i weithredu'r materion ar ran y partïon ac yn y ffordd sydd wedi ei disgrifio yn y Cytundeb hwn.

# 3. NODAU AC AMCANION

3.1 Nodau Taith yw datblygu a mabwysiadu strategaeth cludiant a strategaethau atodol ar gyfer y Rhanbarth yn cynnwys yr egwyddorion canlynol ac egwyddorion eraill o'r fath y gellir cael eu cytuno o bryd i'w gilydd gan y Bwrdd:

3.1.1 ymestyn isadeiledd aml foddol y Rhanbarth,

3.1.2 cefnogi gwelliannau cynaliadwy hyd at lefel y gweithgarwch masnachol ac economaidd yn y Rhanbarth,

3.1.3 gwella diogelwch ac ansawdd y gwasanaethau cludiant ac isadeiledd yn y Rhanbarth,

3.1.4 cefnogi system gludiant sy'n cyflawni anghenion holl drigolion y Rhanbarth

3.1.5 hybu gwelliannau i gysylltiadau cludiant ac integreiddio polisi gydag ardaloedd eraill tu allan i'r Rhanbarth.

3.2 Er mwyn cyflawni'r nodau uchod, bydd Taith yn ceisio cyflawni'r amcanion canlynol:

3.2.1 datblygu, adolygu a gweithredu o bryd i'w gilydd Strategaeth Cludiant Rhanbarthol neu strategaethau sy'n gosod y fframwaith ar gyfer buddsoddi mewn cludiant Rhanbarthol a Lleol,

3.2.2 datblygu, adolygu a gweithredu strategaethau atodol er mwyn rhoi sylw i faterion cludiant penodol,

3.2.3 gwneud y defnydd mwyaf o'r manteision sydd ar gael o bob ffynhonnell ariannol a chymorth grant ar gyfer prosiectau a mentrau cludiant Rhanbarthol a Lleol,

3.2.4 cefnogi pob Awdurdod wrth gyflwyno prosiectau a mentrau sy'n cyfrannu at y nodau sydd wedi eu rhestru yng nghymal 3.1 uchod,

3.2.5 ymateb i fentrau cludiant Llywodraeth Cynulliad Cymru er lles y Rhanbarth,

3.2.6 cynrychioli'r Rhanbarth wrth lobïo a gwneud cynrychioladau ynglyn â phob ystyriaeth cludiant yn y Rhanbarth a thu hwnt i'r Rhanbarth sy'n effeithio ar y nodau fel y nodwyd hwy yng nghymal 3.1 uchod neu'n berthnasol iddynt.

## 4. Y BWRDD A'R GRŴP RHEOLI

4.1 Bydd pob Awdurdod unigol yn penodi dau o'u Cynghorwyr etholedig i'r Bwrdd i fod yn aelodau am gyfnod o bedair blynedd gorau oll.

Bydd gan bob Awdurdod yr hawl i enwebu dirprwy yn lle naill ai un neu ddau o'r Cynghorwyr a benodwyd ganddynt a fydd yn gallu gwneud eu gwaith mewn unrhyw un neu fwy o gyfarfodydd y Bwrdd.

4.2 Penodir Cadeirydd gan y Bwrdd bob dwy flynedd. Bydd y Cadeirydd yn Gynghorydd o bob awdurdod yn ei dro (fel bo pob Awdurdod yn darparu un cadeirydd bob deuddeng mlynedd).

4.3 Penodir Is-gadeirydd gan y Bwrdd bob dwy flynedd. Bydd yr Is-gadeirydd yn Gynghorydd o bob awdurdod yn ei dro (fel bo pob awdurdod yn darparu un is-gadeirydd bob deuddeng mlynedd). Ni all y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd fod yn Gynghorwyr o'r un awdurdod.

4.4 Bydd un bleidlais gan bob Awdurdod sy'n cael ei gynrychioli ar y Bwrdd a bydd penderfyniadau'r Bwrdd yn cael eu gwneud gyda mwyafrif syml o bleidleisiau. Yr Awdurdod sy'n darparu'r Cadeirydd am y tro fydd â'r bleidlais fwrw os bydd y bleidlais yn gyfartal.

4.5 Y Bwrdd fydd yn gyfrifol am fabwysiadu'r Cynllun Busnes.

4.6 Bydd cworwm ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd yn cynnwys o leiaf un Cynghorydd etholedig (neu ei ddirprwy sydd wedi ei enwebu) o ddim llai na pump o'r partïon. Cynhelir cyfarfodydd y Bwrdd yn unol â'r rheolau sefydlog ar gyfer trefn cyfarfodydd yr Awdurdod Rheoli. Mewn sefyllfa lle gall darpariaethau'r rheolau sefydlog hynny wrthdaro gyda darpariaethau'r Cytundeb hwn, darpariaethau'r Cytundeb hwn fydd yn sefyll.

4.7 Bydd y Bwrdd yn cyfarfod o leiaf unwaith y flwyddyn neu ar yr adegau abenderfynir gan y Bwrdd.

4.8 Bydd gan y Bwrdd awdurdod wedi ei ddirprwyo gan ei bartïon er mwyn gwneud penderfyniadau, mynd i gontractau a gwario yn ôl nodau y Cytundeb hwn fel y nodwyd hwy yng nghymal 3.1 uchod.

4.9 Bydd y Bwrdd yn penodi Grŵp Rheoli a fydd yn cynnwys nifer cyfartal o swyddogion o bob Awdurdod. Bydd y Grŵp Rheoli yn:

4.9.1 adrodd yn ôl i'r Bwrdd ac yn ei gefnogi,

4.9.2 cyfrifol am gydgysylltu rhwng pob Awdurdod a

4.9.3 gweithredu'r Cynllun Busnes.

4.10 Bydd Cyfarwyddwr Cludiant yr Awdurdod Rheoli (neu'r person sy'n dal y swydd gywerth) yn gweithredu fel swyddog arweiniol y Grŵp Rheoli.

4.11 Gall swyddog sy'n aelod o'r Grŵp Rheoli enwebu dirprwy i fynychu cyfarfodydd y Grŵp Rheoli yn ei le. Gall unrhyw aelod o'r Grŵp Rheoli (neu ei ddirprwy) fynychu cyfarfodydd y Bwrdd ond ni fydd gan swyddog o'r fath bleidlais yng nghyfarfodydd y Bwrdd.

4.12 Bydd y cworwm ar gyfer cyfarfodydd y Grŵp Rheoli yn cynnwys o leiaf un swyddog o'r pump o'r partïon o leiaf a bydd cyfarfodydd o'r fath yn cael eu cynnal yn unol â'r gweithdrefnau y gall y Grŵp Rheoli eu penderfynu'n unfrydol o bryd i'w gilydd.

4.13 Bydd y Grŵp Rheoli yn cyfarfod o leiaf bedair gwaith y flwyddyn ac yn amlach ar gais unrhyw swyddog o'r Grŵp Rheoli ar ôl rhoi rhybudd ysgrifenedig o saith diwrnod i bob Awdurdod.

4.14 Cynhelir cyfarfodydd y Grŵp Rheoli yn swyddfeydd yr Awdurdod Rheoli oni bai y bydd y Grŵp Rheoli yn cytuno'n unfrydol yn wahanol.

4.15 Ni fydd gan y Grŵp Rheoli bwer i newid neu amrywio'r Cytundeb hwn nac i ymrwymo unrhyw Awdurdod ynglyn ag unrhyw fater heb gymeradwyaeth y Bwrdd.

4.16 Gall y Grŵp Rheoli sefydlu Tîm Gweithredol (neu Dîmau) yn cynnwys o leiaf un swyddog o bob Awdurdod (fel y'u dewisiwyd gan y Grŵp Rheoli). Bydd pob Tîm Gweithredol yn gwneud y gwaith sy'n berthnasol i'r Cytundeb hwn yn unol â'r hyn a all gael ei benderfynu gan y Grŵp Rheoli a gall swyddogaethau o'r fath gynnwys y busnes a'r gwaith o reoli Taith o ddydd i ddydd a gweithredu'r cyfarwyddiadau a roddir i'r Tîm hwnnw gan y Grŵp Rheoli. Bydd pob Tîm Gweithredol yn adrodd yn ôl i'r Grŵp Rheoli a fydd yn datrys unrhyw anghytuno rhwng swyddogion unrhyw Dîm Gweithredol.

# 5. AWDURDOD RHEOLI

5.1 Bydd y Bwrdd yn penodi un Awdurdod i weithredu fel Awdurdod Rheoli am gyfnod o bedair mlynedd o leiaf yn amodol ar y darpariaethau ar gyfer dod â'r Cytundeb hwn i ben fel sydd wedi eu nodi yng nghymal 7.1 isod.

5.2 Gall penodiad yr Awdurdod Rheoli gael ei derfynu gan yr holl bartïon eraill trwy roi rhybudd ysgrifenedig o dri mis i'r Awdurdod Rheoli.

5.3 Ni ellir terfynu penodiad yr Awdurdod Rheoli yn ystod y cyfnod o bedair mlynedd ac eithrio ar sail anghymwyster yr Awdurdod Rheoli, ei anallu i weithredu, esgeulstod neu gamddygiad bwriadol.

5.4 Bydd yr Awdurdod Rheoli yn gyfrifol am baratoi a dosbarthu Rhaglenni ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd a'r Grŵp Rheoli, cymryd cofnodion llawn yn y cyfarfodydd hynny a pharatoi a dosbarthu'r cofnodion yng nghyfarfodydd y dyfodol y Bwrdd a'r Grŵp Rheoli. Yn ogystal, bydd yr Awdurdod Rheoli yn darparu'r holl wasanaethau ysgrifenyddol a gweinyddol angenrheidiol i gyflawni swyddogaethau Taith.

5.5 Bydd Swyddog Adran 151 yr Awdurdod Rheoli yn darparu'r holl wasanaethau ariannol a chyfrifeg i Taith yn unol â rheoliadau ariannol a rheolau sefydlog yr Awdurdod Rheoli am y tro.

5.6 Bydd pob Awdurdod yn talu i'r Awdurdod Rheoli y costau am ddarparu gwasanaethau gweinyddol, ysgrifenyddol, ariannol a chyfrifeg i Taith yn unol â darpariaethau Atodlen 1 o'r Cytundeb hwn.

5.7 Bydd yr Awdurdod Rheoli yn adrodd yn ôl yn rheolaidd i'r Bwrdd ynglŷn â statws ariannol Taith ac yn rhoi gerbron y Bwrdd unwaith y flwyddyn cofnod o'r Incwm a Gwariant am y flwyddyn flaenorol a'r Fantolen am y flwyddyn honno wedi eu hardystio gan y Swyddog Adran 151.

5.8 Bydd y Swyddog Adran 151 yn gyfrifol am:

5.8.1 dderbyn a rheoli'r holl arian grant oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru (ac unrhyw gorff arall sy'n dyfarnu grantiau),

5.8.2 talu pob cyfrif priodol sy'n ddyledus o dan unrhyw gontractau neu gytundebau a wnaed gan Taith yn unol â'r Cytundeb hwn a

5.8.3 talu pob anfoneb priodol a roddwyd i'r Awdurdod Rheoli gan Awdurdod arall mewn perthynas â gwaith a wnaed gan yr Awdurdod arall hwnnw yn unol â'r Cytundeb hwn a bod y gwaith wedi cael ei awdurdodi gan y Bwrdd. Bydd talu am anfonebau o'r fath yn unol â'r darpariaethau yn Atodlen 2 o'r Cytundeb hwn.

5.9 Bydd pob Awdurdod yn caniatáu i Archwilwyr yr Awdurdod Rheoli gael mynediad at unrhyw gofnodion, dogfennau a chyfrifon a luniwyd ganddynt yn unol â'r Cytundeb hwn o fewn amser rhesymol yn dilyn cais ysgrifenedig oddi wrth Archwilwyr o'r fath.

5.10 Mae'r Awdurdod Rheoli yn ymroddi i:

5.10.1 Sicrhau bod cynnwys a manylebau bidiau am gyllid i Lywodraeth Cynulliad Cymru (neu unrhyw asiantaeth gyllido arall) sy'n cael eu paratoi gan y Grŵp Rheoli a'u cymeradwyo gan y Bwrdd yn unol â'r amodau a gytunwyd gan y Bwrdd yn ôl y gweithdrefnau a nodwyd yn y Cytundeb hwn.

5.10.2 Dosbarthu i'r holl bartïon eraill fanylion am bob bid am gyllid a manylion am y grantiau a ddyfarnwyd neu a wrthodwyd yn sgil bidiau o'r fath.

5.10.3 Glynu wrth reolau sefydlog unrhyw Awdurdod y mae'r Bwrdd wedi cytuno y gallant weithredu contract ar ran Taith.

5.11 Bydd yr Awdurdod Rheoli yn penodi staff fel y nodwyd yn Atodlen 3 o'r Cytundeb hwn yn unol â'u polisïau a'u gweithdrefnau ar gyfer penodi staff a bydd y costau am benodi a chyflogi staff o'r fath yn cael eu talu gan bob Awdurdod yn unol â darpariaethau'r Atodlen hwnnw. Bydd penodi staff o'r fath i unrhyw swydd wag yn cael ei wneud yn unol â gweithdrefnau recriwtio a dethol yr Awdurdod Rheoli dywededig mewn ymgynghoriad â swyddogion y Grŵp Rheoli. Dim ond yr Awdurdod Rheoli mewn ymgynghoriad â'r Grŵp Rheoli fydd yn cael gwneud pob penodiad, boed yn benodiad cyntaf neu'n un dilynol. Bydd yn rhaid i'r Bwrdd gymeradwyo strwythur staff Taith.

5.12 Am y tro mae'r partïon yn cytuno i warantu'r Awdurdod Rheoli mewn perthynas â'r holl gostau a gafodd wrth weithredu ei swyddogaethau fel yr Awdurdod Rheoli o dan y Cytundeb hwn ar wahân i unrhyw gostau, atebolrwydd neu iawndal yn codi o esgeulustra neu gamymddygiad bwriadol gan yr Awdurdod Rheoli neu ar ei ran am y tro pan oedd yn gweithredu swyddogaethau o'r fath.

5.13 Bydd y partïon yn talu'r holl gostau priodol i'r Awdurdod Rheoli am y tro yn unol â chymal 5.12 uchod yn ôl y cyfrannau a nodwyd yn Atodlen 1 o'r Cytundeb hwn a byddant yn cael eu talu i'r Awdurdod Rheoli yn unol â darpariaethau'r Atodlen hwnnw.

5.14 Bob blwyddyn bydd yr Awdurdod Rheoli yn paratoi ac yn cyflwyno Cynllun Busnes i'r Bwrdd ar gyfer cael ei gymeradwyo yng nghyfarfod cyntaf y Bwrdd ar neu ar ôl 1 Ebrill bob blwyddyn. Bydd pob Cynllun Busnes o'r fath ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod yn cael eu dosbarthu i bob Awdurdod cyn 30 Medi yn y flwyddyn flaenorol. Bydd y Cynllun Busnes yn cynnwys y canlynol:

5.14.1 Y gyllideb flynyddol ar gyfer Taith a fydd yn cynnwys yr holl symiau a argymhellwyd y dylid eu codi ar y partïon gan yr Awdurdod Rheoli wrth iddo weithredu ei swyddogaethau yn ôl y Cytundeb hwn ac fel y cyfrifwyd hwy yn unol ag Atodlen 1 o'r Cytundeb hwn.

5.14.2 Adroddiad o'r Incwm a Gwariant wedi ei archwilio a'r Fantolen fel y nodwyd yng nghymal 5.7 uchod gan gynnwys sylwadau'r archwilydd.

5.14.3 Manylion am unrhyw fenthyciadau a awdurdodwyd yn briodol yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol.

5.14.4 Manylion am yr holl gontractau a wnaed yn y flwyddyn ariannol flaenorol a'r holl gontractau a argymellwyd ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod yn unol â'r Cytundeb hwn.

5.14.5 Manylion am unrhyw symiau sydd heb eu talu i bob Awdurdod neu eu talu ganddynt ers y flwyddyn ariannol flaenorol.

5.14.6 Manylion am y strategaethau a'r rhaglen weithredu yn ystod cyfnod y Cynllun.

5.14.7 Unrhyw fater arall y gall unrhyw Awdurdod ofyn iddo gael ei gynnwys a'i gymeradwyo gan y Bwrdd.

## 6. YMRWYMIAD AWDURDODAU UNIGOL

6.1 Mae pob Awdurdod yn awdurdodi Taith i weithredu ar eu rhan wrth ymgymryd â rôl Consortia Rhanbarthol er mwyn cyflawni gofynion Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn perthynas â Strategaethau Cludiant Rhanbarthol, cludiant a grantiau a materion eraill fel y câant eu nodi o bryd i'w gilydd. Bydd materion o'r fath yn cynnwys:

6.1.1 Dal grantiau a ddyfernir yn unol â cheisiadau a wneir o dan y Cytundeb hwn ac a ddyfernir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru neu unrhyw asiant cyllido arall a'u defnyddio at y dibenion a awdurdodwyd gan benderfyniadau'r Bwrdd.

6.1.2 Gwneud ceisiadau ymhellach a derbyn, gweinyddu a gwneud taliadau priodol allan o grantiau o'r fath fel fydd yn ofynnol at ddibenion y Cytundeb hwn tra bydd y Cytundeb yn parhau ac adrodd yn ôl i'r Bwrdd ynglŷn â cheisiadau o'r fath, ceisiadau sydd wedi eu gwrthod a rhai sydd wedi eu dyfarnu.

6.2 Mae pob Awdurdod yn gyfrifol am:

6.2.1 Gaffael contractau y maent wedi eu hawdurdodi i'w cael yn ôl penderfyniad y Bwrdd, yn unol â'u rheolau sefydlog perthnasol,

6.2.2 Ystyried y Cynllun Busnes drafft a gyflwynwyd iddynt a naill ai gymeradwyo, ei wrthod neu ofyn am newidiadau iddo o fewn (pedair) wythnos i'w dderbyn. Ni chaiff unrhyw Gynllun Busnes neu ran o gynllun o'r fath sy'n cael ei wrthod gan y mwyafrif o'r partïon ei gyflwyno i gael cymeradwyaeth y Bwrdd mewn perthynas â'r rhan honno y mae wedi cael ei wrthod.

6.2.3 Gweithredu'r Cynllun Busnes a phob Cynllun Busnes dilynol yn yr ardal ddaearyddol a sicrhau bod yr adnoddau sydd eu hangen i gyflawni ei ymrwymiadau fel yr amlinellir yn y Cynllun Busnes ac yn unol â'r Cytundeb hwn ar gael.

6.2.4 Talu i'r Awdurdod Rheoli eu rhan o'r costau a wariwyd gan yr Awdurdod Rheoli wrth iddo weithredu'n briodol yn ôl yr hyn a gyfrifwyd ac yn y ffordd a nodwyd yn Atodlen 1 o'r Cytundeb hwn.

6.2.5 Ariannu'r gwaith a wneir gan Taith ym mhob blwyddyn ariannol yn ôl y boblogaeth ym mhob Awdurdod. Mae 'Poblogaeth' yma yn golygu poblogaeth pob un o'r partïon (ac eithrio ardal Meirionnyd pan yn cyfrifo poblogaeth Cyngor Gwynedd) yn unol ag amcangyfrifon canol blwyddyn y Cofrestrydd Cyffredinol ar gyfer Mehefin ddwy flynedd cyn pob blwyddyn ariannol o'r fath.

6.2.6 Mewn perthynas ag unrhyw waith o fewn ei ardal ddaearyddol gwneud yn dda am unrhyw ddiffyg mewn cyllid rhwng yr hyn a ddyfarnwyd i'r Awdurdod gan Taith a gwir gost cwblhau'r gwaith hynny.

6.3 Rhaid i unrhyw fenthyca arfaethedig gan Taith gael caniatâd pendant pob Awdurdod cyn iddo gael ei gymeradwyo gan y Bwrdd. Taith fydd yn atebol am y brif swm a'r llog ar unrhyw fenthyciad sydd wedi ei gymeradwyo a'i gytuno a bydd yn cael ei rannu rhwng y partïon yn ôl poblogaeth pob parti (ni fydd Cyngor Gwynedd yn cynnwys poblogaeth ardal Meirionnydd). Bydd 'poblogaeth' yn y fan hon yn golygu poblogaeth pob parti yn unol ag amcangyfrifon canol blwyddyn y Cofrestrydd Cyffredinol ar gyfer Mehefin ddwy flynedd cyn y flwyddyn ariannol pan fydd pob benthyciad o'r fath yn cael ei wneud.

6.4 Bydd perchenogaeth a chyfrifoldebau Taith am gerbydau, cyfarpar ac offer ac unrhyw ased diriaethaol arall a pherchenogaeth a chyfrifoldebau am unrhyw briffordd, strwythur priffyrdd a dodrefn stryd sydd wedi eu hadeiladu gan arian a gafwyd ac a wariwyd o dan amodau'r Cytundeb hwn yn unol â'r darpariaethau a nodwyd yn Atodlen 4 o'r Cytundeb hwn.

6.5 Mewn sefyllfa lle mae unrhyw Awdurdod, ac eithrio'r Awdurdod Rheoli yn gwneud gwariant sydd wedi ei gymeradwyo ar ran Taith yna bydd yr Awdurdod hwnnw yn rhoi gwybod i'r Awdurdod Rheoli am wariant o'r fath. Bydd yr Awdurdod Rheoli yn rhannu costau gwariant o'r fath rhwng y partïon yn unol ag Atodlen 2 o'r Cytundeb hwn.

## 7. DARPARIAETHAU CYFFREDINOL

7.1 Dod â'r Cytundeb i Ben

7.1.1 Gall unrhyw un o'r partïon ddod â'r Cytundeb hwn i ben trwy roi o leiaf chwe mis o rybudd ysgrifenedig i bob un o'r partïon eraill yn datgan ei ddymuniad i wneud hynny. Ni fydd raid dod â'r Cytundeb i ben os bydd un Awdurdod yn tynnu allan o'r Cytundeb.

7.1.2 Ar ôl terfynu'r Cytundeb hwn bydd Taith yn cael ei ddirwyn i ben yn unol â'r darpariaethau yn Atodlen 5 o'r Cytundeb hwn.

7.1.3 Gall yr Awdurdod Rheoli derfynu ei benodiad trwy roi o leiaf chwe mis o rybudd ysgrifenedig i bob un o'r partïon eraill cyn diwedd y flwyddyn ariannol yn datgan ei ddymuniad i wneud hynny.

7.2 Ni fydd y Cytundeb hwn yn creu Asiantaeth neu Bartneriaeth rhwng pob Awdurdod unigol o dan y Ddeddf Bartneriaeth 1890 ond bydd gan bob Awdurdod ddyletswydd gofal ac ewyllys da i bob Awdurdod unigol arall wrth weithredu'r ymrwymiadau sydd wedi eu cynnwys yn y Cytundeb hwn.

7.3 Ni fydd unrhyw beth yn y Cytundeb hwn yn cyfyngu neu'n atal gweithrediadau pob Awdurdod fel Awdurdod Priffyrdd lleol a'r defnydd cyfreithiol ganddynt o unrhyw arian grant a ddyrenir iddynt.

7.4 Bydd pob Awdurdod yn gyfrifol am unrhyw waith a wneir yn unol â'r Cytundeb hwn ar dir sy'n gorwedd o fewn ffiniau gweinyddol yr Awdurdod hwnnw.

7.5 Atebolrwydd i Drydydd Partïon

7.5.1 Mae pob Awdurdod yn gwarantu'r partïon eraill yn y Cytundeb hwn rhag unrhyw gostau, hawliau, gofynion, difrod neu atebolrwydd sy'n codi o blaid trydydd partïon o ganlyniad i unrhyw fethiant gan Awdurdod o'r fath i ddilyn a gweithredu'n llawn ei ymrwymiadau sydd wedi eu cynnwys yn y Cytundeb hwn cyn belled â bod rhaid i'r ymrwymiadau hynny gael eu gweithredu a'u dilyn gan yr Awdurdod hwnnw.

7.5.2 Lle bo unrhyw gostau, hawliau, gofynion, difrod neu atebolrwydd o blaid trydydd partïon yn codi heblaw am fethiant dywededig unrhyw un neu fwy Awdurdod, yna bydd costau, hawliau, gofynion, difrod ac atebolrwydd o'r fath yn cael eu trin gan Taith fel cost i'r Awdurdod Rheoli o fewn ystyr Atodlen 1 o'r Cytundeb hwn a bydd yn cael ei ailgodi ar bob Awdurdod yn y cyfrannau ac yn y ffordd y darperir ar ei gyfer yn yr Atodlen hwnnw.

7.6 Bydd unrhyw anghydfod neu wahaniaeth sy'n codi gydag unrhyw Awdurdod ynglyn â hawliau, dyletswyddau ac ymrwymiadu priodol neu ynglyn ag unrhyw fater sy'n codi o destun y Cytundeb hwn neu mewn cysylltiad ag ef (gan gynnwys unrhyw anghydfod neu wahaniaeth mewn perthynas ag ystyr

neu luniad y Cytundeb hwn) ac eithrio yr hyn sydd wedi ei ddarparu amdano yn y Cytundeb hwn yn cael ei atgyfeirio gan unrhyw Awdurdod unigol a'i benderfynu gan Gyfreithiwr neu Fargyfreithiwr annibynnol sydd wedi bod yn swydd ers o leiaf 10 mlynedd ac sydd hefyd yn arbenigwr mewn perthynas â'r mater sy'n destun yr anghydfod. Bydd methu â chytuno ynglyn â phenodi Cyfreithiwr neu Fargyfreithiwr annibynnol o'r fath yn arwain at benodi un gan y Llywydd neu'r Is Lywydd neu swyddog awdurdodedig priodol arall o Gymdeithas y Gyfraith ar gais y naill barti neu'r llall. Bydd unrhyw berson a benodir o dan y cymal hwn yn gweithredu fel cyflafareddwr yn unol â'r Deddfau Cyflafareddu 1950-1996 neu unrhyw addasiad statudol a fydd mewn grym o bryd i'w gilydd.

7.7 Bydd penderfyniad unrhyw Gyflafareddwr a benodir gan hynny yn derfynol ac yn ymrwymo'r partïon sy'n rhan o'r anghydfod hwnnw a bydd costau cyflafareddu o'r fath yn ôl disgresiwn llwyr y Cyflafareddwr.

7.8. Bydd unrhyw rybudd a roddir o dan y Cytundeb hwn yn cael ei weithredu'n ddigonol os y caiff ei gyflwyno neu ei anfon trwy Bost Cludiant wedi ei Gofnodi neu wedi ei bostio gyda stamp dosbarth cyntaf i Gyfarwyddwr Cludiant (neu i ddeiliad swydd cywerth) pob Awdurdod yn y cyfeiriadau sydd wedi eu nodi ar gyfer pob Awdurdod ar ddechrau'r Cytundeb hwn (neu gyfeiriad arall y mae'r Awdurdod wedi rhoi gwybod yn sygrifenedig ar ôl hynny i bartïon eraill y Cytundeb hwn) a bydd rhybudd o'r fath yn weithredol ar unwaith.

7.9 Ni ddylid ystyried y penawdau yn y Cytundeb hwn fel rhan o'r Cytundeb ac ni ddylent effeithio ar ddadansoddiad neu luniad y Cytundeb.

7.10 Ni fydd unrhyw addasiad, newid neu ildiad i unrhyw un o ddarpariaethau y Cytundeb hwn yn effeithiol hyd nes y bydd wedi ei gymeradwyo gan y Bwrdd a rhaid i benderfyniad y Bwrdd fod yn unfrydol, yn ysgrifenedig ac wedi ei lofnodi gan Gynrychiolydd awdurdodedig priodol pob Awdurdod ar y Bwrdd.

7.11 Mae'r Cytundeb hwn yn cynrychioli'r cytundeb cyfan rhwng y partïon a maint llawn y fenter ar y dyddiad hynny. Bydd unrhyw amrywiad neu estyniad dilynol i amodau'r Cytundeb yn cael eu cynnwys yn llawn ac yn effeithiol yn y Cytundeb ac yn rhan ohono os y caiff ei osod allan yn llawn mewn Memorandwm o Gytundeb Pellach yn nodi ac yn cyfeirio'n ddigonol at y Cytundeb hwn ac wedi ei lofnodi gan bob Awdurdod yn unol â'r cymal 7.10 hwn.

**I DYSTIO GYDA HYN** bod y partïon hyn wedi rhoi eu Seliau Cyffredin priodol yma ar y diwrnod a'r flwyddyn a nodwyd yn gynharach.

# ATODLEN 1

## Costau'r Awdurdod Rheoli

(a) Bydd y costau a gafodd yr Awdurdod Rheoli yn ystod yr amser y bu'n gweithredu'n briodol yn ei swyddogaeth ac mewn perthynas â gwasanaethau gweinyddol, ysgrifenyddol, ariannol a chyfrifeg i Taith a'r holl gostau eraill a oedd yn codi o'r gwaith neu mewn cysylltiad a'r gwaith a wnaed ganddo ar ran Taith yn cael eu hardystio gan Swyddog Adran 151 yr Awdurdod Rheoli ar gyfer pob blwyddyn ariannol a'u rhannu rhwng y partïon yn ôl poblogaeth pob parti.

(b) At ddibenion paragraff (a) uchod poblogaeth pob un o'r partïon ar gyfer y flwyddyn ariannol dan sylw fydd amcangyfrifon canol blwyddyn y Cofrestrydd Cyffredinol ar gyfer Mehefin ddwy flwynedd cyn y flwyddyn ariannol honno. Wrth gyfrifo poblogaeth Cyngor Gwynedd ni fydd poblogaeth ardal Meirionnydd yn cael eu cynnwys.

(c) Ar ôl ardystio'r costau fel y cyfrifwyd hwy uchod bydd y Swyddog dywededig yn rhoi gwybod i bob Awdurdod y swm sy'n ddyledus ganddynt a bydd talu symiau o'r fath yn cael eu gwneud mewn ffordd ac yn unol ag amserlen sydd wedi ei chytuno gan y partïon neu, yn niffyg cytundeb o'r fath, fel y rhoddwyd gwybod i bob Awdurdod gan y Cyfarwyddwr dywededig.

# ATODLEN 2

## Costau a gafwyd gan bob Awdurdod

Lle bydd Awdurdod ac eithrio'r Awdurdod Rheoli am y tro, yn cael gwariant a awdurdodwyd yn flaenorol gan y Bwrdd, rhoddir gwybod am wariant o'r fath i'r Swyddog Adran 151 o'r Awdurdod Rheoli dywededig mewn ffordd fydd yn cael ei gytuno gan y partïon neu, yn niffyg cytundeb o'r fath, mewn ffordd sydd wedi ei dewis gan y Swyddog dywededig ac wedi ei hysbysu'n ysgrifenedig i bob Awdurdod. Bydd gwariant o'r fath, ar ôl cael ei ardystio'n briodol ar gyfer pob blwyddyn ariannol ac wedi ei hysbysu i bob Awdurdod gan y Swyddog, yn cael ei rannu rhwng y partïon yn ôl poblogaeth pob parti.

Bydd ystyr "poblogaeth" yr un fath â'r ystyr a roddir ym mharagraff (b) o Atodlen 1 o'r Cytundeb hwn.

Ar ôl cael gwybod beth yw eu cyfran o'r gwariant dywededig, bydd pob Awdurdod yn talu ei gyfran i'r Awdurdod Rheoli dywededig yn y ffordd ac yn unol ag amserlen sydd i'w gytuno gan y partïon neu, yn niffyg cytundeb o'r fath, gan y Swyddog dywededig.

# ATODLEN 3

## Staff a gyflogir gan Taith

Yn unol â chymal 5.11 o'r Cytundeb hwn, bydd yr Awdurdod Rheoli am y tro yn cyflogi'r staff a'r adnoddau fel sydd wedi eu penderfynu gan y Grŵp Rheoli a'u cymeradwyo gan y Bwrdd.

Pan ddaw'r Cytundeb hwn i ben, bydd y partïon yn gwneud ymdrechion rhesymol i gynnig gwaith i unrhyw aelod o'r staff dywededig a fyddai fel arall yn ddiwaith.

Bydd yr holl gostau cyflogi staff o'r fath gan gynnwys unrhyw gostau diswyddo yn cael eu trin fel cost yr Awdurdod Rheoli dywededig o fewn ystyr Atodlen 1 o'r Cytundeb hwn a'u trin yn unol â hynny.

# ATODLEN 4

## Asedau ac Isadeiledd

1. Bydd unrhyw gyfarpar, cerbyd, offer neu ased diriaethol arall (ased) sydd wedi eu trosglwyddo i Taith gan unrhyw Awdurdod yn cael eu trosglwyddo yn ôl eu gwerth ar y farchnad agored ar ddyddiad trosglwyddiad o'r fath. Yn niffyg unrhyw gytundeb rhwng yr Awdurdod Rheoli a'r Awdurdod sy'n trosglwyddo'r ased ynglyn â gwerth yr ased, bydd y gwerth yn cael ei benderfynu trwy gyflafareddiad fel y darparwyd ar ei gyfer yn y Cytundeb hwn.

2. Bydd unrhyw ased a brynwyd gan Taith neu ar ran Taith yn berchen i bob Awdurdod ar y cyd mewn cyfrannau yn ôl poblogaeth pob parti ac eithrio poblogaeth Cyngor Gwynedd na fydd yn cynnwys ardal Meirionnydd. Ystyr 'poblogaeth' fydd amcangyfrifon canol blwyddyn y Cofrestrydd Cyffredinol ar gyfer Mehefin ddwy flynedd cyn y flwyddyn ariannol pan brynwyd ased o'r fath gan Taith.

3. Bydd unrhyw briffordd (fel y diffinir hi yn adran 328 o Ddeddf Priffyrdd 1980), strwythur priffordd neu ddodrefn stryd (isadeiledd) sydd wedi ei adeiladu, ei addasu neu ei wella yn ôl y Cytundeb hwn yn cael eu trin wedi hynny fel cyfrifoldeb yr Awdurdod lle mae isadeiledd o'r fath wedi ei leoli ac eithrio priffyrdd y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn Awdurdod cyfrifol iddynt. Dim ond yr Awdurdod sy'n dal cyfrifoldeb o'r fath fydd yn atebol am y costau o gynnal a chadw, gwella ac atgyweirio'r isadeiledd at y dyfodol.

# ATODLEN 5

## Darpariaethau ynglŷn â Dod â'r Cytundeb i Ben

Rhwng y dyddiad rhoi rhybudd i ddod â'r Cytundeb hwn i ben yn unol â chymal 7.1 a'r dyddiad pan fydd rhybudd o'r fath yn effeithiol, bydd Swyddog Adran 151 yr Awdurdod Rheoli am y tro yn cyfrifo'r holl faterion canlynol am y cyfnod hyd at ddyddiad terfyniad o'r fath:

1. yr holl symiau sy'n ddyledus i'r Awdurdod Rheoli yn unol ag Atodlen 1 o'r Cytundeb hwn,
2. unrhyw swm sy'n ddyledus i bob Awdurdod yn unol ag Atodlen 2 o'r Cytundeb hwn,
3. unrhyw swm sy'n ddyledus i'r Awdurdod Rheoli yn unol ag Atodlen 3 o'r Cytundeb hwn,
4. unrhyw swm a gyfrifir y mae Taith yn atebol amdano i drydydd parti,
5. cyfran pob Awdurdod mewn asedau Taith fel y darperir ar eu cyfer yn Atodlen 4 o'r Cytundeb hwn,
6. cyfran pob Awdurdod mewn perthynas ag unrhyw fenthyciadau sydd dros ben (os o gwbl) a wnaed gan Taith neu ar ran Taith fel y darparwyd ar eu cyfer yng nghymal 6.3 o'r Cytundeb hwn.

Bydd pob Awdurdod yn cael rhybudd ysgrifenedig am yr holl symiau a'r cyfrannau fel y cyfrifir nhw uchod gan y Swyddog dywededig o fewn 3 mis ar ôl i'r Cytundeb hwn ddod i ben.

Bydd unrhyw Awdurdod sy'n cael gwybod bod symiau ganddynt yn ddyledus i Taith yn talu'r symiau hynny i'r Awdurdod Rheoli o fewn 28 diwrnod ar ôl cael gwybod.

Bydd unrhyw Awdurdod sy'n cael gwybod bod swm yn ddyledus iddynt oddi wrth Taith yn cael y swm hwnnw wedi ei dalu mewn ffordd sydd wedi ei chytuno rhwng yr Awdurdod a'r Awdurdod Rheoli, neu yn niffyg cytundeb o'r fath, mewn ffordd a benderfynir gan y Swyddog dywededig.

Os bydd unrhyw symiau neu gyfrannau sydd wedi eu disgrifio'n fanwl yn y pwyntiau rhif 1 i 6 o'r Atodlen hon yn codi neu'n dod i sylw y Swyddog dywededig ar ôl y dyddiad pan fydd y Cytundeb hwn wedi dod i ben, yna bydd pob Awdurdod, er gwaetha'r ffaith bod y Cytundeb hwn wedi dod i ben, wedi ei ymrwymo i dalu symiau o'r fath neu i dderbyn cyfrannau o'r fath y gallent gael gwybod amdanynt gan y Swyddog dywededig fel pe baent wedi cael gwybod amdanynt cyn i'r Cytundeb hwn ddod i ben.